**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: HID-PO-590-25

17 Tachwedd 2025

Annwyl Mike,

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27**

Rydym yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 16 Medi, yn gofyn am wybodaeth i gefnogi'r gwaith o graffu ar gynlluniau cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfiawnder. Mae atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd gennych yn y llythyr wedi'u hatodi yn Atodiad A.

Diolch am ysgrifennu atom fel Cadeirydd y Pwyllgor ynglŷn â'r mater pwysig hwn. Rydym yn gobeithio y bydd yr ymateb hwn o fudd i chi.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad A

### Cyffredinol

Y Gyllideb Ddrafft yw man cychwyn proses gyllideb Llywodraeth Cymru - nid ei diwedd. Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 wedi'i llunio ar sylfaen gadarn cyllideb y llynedd, a oedd yn cynnwys £1.6bn o ymrwymiadau gwariant newydd, gan alluogi gwasanaethau cyhoeddus i ddechrau cynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2026–27. Mae'n dyrannu 98.6% o'r cyllid sydd ar gael, gan adael lle am fuddsoddiad pellach ym mlaenoriaethau Cymru erbyn y Gyllideb Derfynol ym mis Ionawr. Ein huchelgais gadarn yw sicrhau Cyllideb Derfynol sy'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2026-27. Mae'r llywodraeth yn parhau i groesawu proses o gydweithio â phleidiau eraill yn y Senedd i gytuno ar gyllideb, gan bwysleisio'r cyd-gyfrifoldeb i basio cyllideb er budd dinasyddion Cymru.

Fel y nodwyd eisoes wrth y Pwyllgor, ar hyn o bryd nid oes modd darparu gwybodaeth fanwl, gynhwysfawr am wariant ar gyfiawnder yn y ffurf y gofynnwyd amdani. Mae gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn rhychwantu portffolios lluosog ac yn cael ei ariannu drwy linellau gwariant amrywiol, ac mae llawer o'r rhain yn ariannu gweithgareddau eraill hefyd. Mewn achosion lle mae llinell wariant yn cwmpasu ystod o weithgareddau, nid yw dyraniad drafft o reidrwydd yn adlewyrchu penderfyniadau terfynol yn ymwneud â blaenoriaethu'r cyllid hwn. Ni fyddai'n bosibl ar hyn o bryd penderfynu i ba raddau y bydd y dyraniadau hyn yn cefnogi gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder.

Rydym wedi amlinellu'r llinellau gwariant sy'n cefnogi gweithgareddau sydd â chysylltiad uniongyrchol â chyfiawnder ym mhob un o'r prif grwpiau gwariant perthnasol. Darperir dadansoddiad o'r gwariant arfaethedig ar gyfer y prif gyllidebau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yng nghyllideb ddrafft 2026-27 yn y tabl sydd wedi'i atodi, ynghyd â naratif ar unrhyw newidiadau o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys elfennau allweddol y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, datganoli cyfiawnder ieuenctid a phrawf, a thribiwnlysoedd.

Er bod llinellau gwariant eraill ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, megis tai, iechyd, ac addysg, yn cyfrannu'n anuniongyrchol at ganlyniadau cyfiawnder, nid oes modd ynysu'r gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn y cyllidebau hyn. Felly, nid yw'r dyraniadau hyn wedi'u cynnwys yn yr wybodaeth sy'n cael ei darparu.

### Cyllidebau Polisi Cyfiawnder yng Nghymru

Mae gwariant o gyllidebau polisi cyfiawnder pwrpasol Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ddau brif faes:

- Symud ymlaen â datganoli cyfiawnder
- Diwygio Tribiwnlysoedd Cymru

<u>Datganoli Cyfiawnder</u>

Fel y gŵyr y Pwyllgor, mae trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru am y posibilrwydd o ddatganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf. Rhaid i unrhyw ddatganoli ar y meysydd hyn gael ei ariannu'n briodol, gan gwmpasu anghenion cyfalaf a refeniw. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau datganoli'r maes cyfiawnder yn llawn ac rydym yn defnyddio dull gweithredu graddol.

Bydd y darpariaethau yn y Gyllideb ddrafft yn sicrhau bod gweithgarwch yn parhau yn 2026–27, gan gynnwys gweithredu unrhyw gytundebau â Llywodraeth y DU, mireinio polisi gweithredol, ac o bosibl cyflwyno mecanweithiau cyfreithiol ar gyfer cyfrifoldebau datganoledig newydd. Cefnogir y gwaith hwn gan y llinellau gwariant Trawsnewid Cyfiawnder a Diwygio Cyfansoddiadol, fel rhan o'r broses o weithredu argymhellion y Comisiwn Annibynnol.

Mae swyddogion yn y ddwy lywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd i edrych ar opsiynau lle gellid ail-alinio cyfrifoldebau yn y system cyfiawnder ieuenctid. Roedd hyn yn cynnwys goruchwylio strategol, trefniadau partneriaeth a llywodraethiant a chyllido gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid fel mannau cychwyn. Mae trosolwg strategol yn hanfodol er mwyn osgoi risg ariannol a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol.

Mae Rhaglen Ymchwil Cyfiawnder, a ariennir drwy gyllidebau ymchwil Llywodraeth Cymru, yn cryfhau'r sylfaen dystiolaeth. Mae'r elfennau cychwynnol yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Modelau cyllido cyfredol a phosibl ar gyfer cyfiawnder ieuenctid
- Y capasiti a'r gallu i reoli system cyfiawnder ieuenctid ddatganoledig

Bydd y gwaith ymchwil hwn yn llywio trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ac yn nodi cyfleoedd i sicrhau gwerth gwell drwy alinio â gwasanaethau datganoledig.

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyd-gomisiynu gwasanaethau prawf yn cael ei drafod hefyd. Er nad oes disgwyl iddo gael effaith sylweddol ar gyllidebau cyfiawnder, gallai fod â goblygiadau ar gyfer gwasanaethau datganoledig eraill oherwydd eu gwaith yn ymwneud â lleihau aildroseddu.

Bydd cyllid o'r ddwy linell wariant yn cynorthwyo nifer fach o staff i arwain trafodaethau a pharatoi ar gyfer swyddogaethau newydd. Mae newidiadau arfaethedig ar gyfer cyllidebau 2026–27 yn fach iawn, gan adlewyrchu pwysau chwyddiant yn bennaf, gan fod dyraniadau blaenorol wedi cwmpasu llawer o'r gweithgarwch gofynnol. Wrth edrych i'r dyfodol, byddai unrhyw gynnydd mawr yn y gyllideb yn debygol o ddigwydd yn nhymor nesaf y Senedd, ochr yn ochr â throsglwyddo pwerau. Byddai angen trafodaethau cyllido yn ystod y flwyddyn a mecanweithiau cyllideb hirdymor ar gyfer trosglwyddiadau uniongyrchol.

Fel y nodwyd yn y gorffennol wrth y Pwyllgor, mae darparu data manwl ar wariant ar gyfiawnder yn parhau i fod yn heriol, gan fod gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn rhychwantu portffolios lluosog ac mae'n cael ei ariannu drwy linellau gwariant amrywiol yn y gyllideb. Mewn achosion lle mae llinellau gwariant yn cwmpasu ystod o swyddogaethau, nid yw dyraniadau drafft yn adlewyrchu penderfyniadau gwariant terfynol, ac mae angen gwneud mwy o waith i asesu faint fydd yn cefnogi gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder.

Rydym wedi nodi llinellau cyllid sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at waith sy'n gysylltiedig â chyfiawnder mewn prif grwpiau gwariant gwahanol. Rydym yn cydnabod awydd y Pwyllgor i wella tryloywder ynghylch gwariant ar gyfiawnder ac yn gwerthfawrogi ei ymdrechion i ddarparu gwaith craffu trawsbynciol. Er nad oes modd i ni eto ddarparu'r lefel o fanylion yr ydym yn anelu ati, rydym wedi gwneud cynnydd ystyrlon i gryfhau ein sylfaen dystiolaeth a llywio penderfyniadau polisi a gwariant. Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar symud ymlaen mewn perthynas â datganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ddeall yn well strwythurau, gweithrediadau a chanlyniadau'r system gyfiawnder. Rydym wedi cydweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i hyrwyddo'r broses o ddadgyfuno data Cymru-Lloegr, sydd bellach ar gael.

Fel y nodir uchod, rydym wedi lansio'r Rhaglen Ymchwil i Gyfiawnder, gyda chymorth grŵp cynghori academaidd. Un o ddarnau gwaith cyntaf y rhaglen fydd ystyried gwelliannau i drefniadau cyllido ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol. Mae mewnbwn arbenigol yn llywio dulliau tymor byr a hirdymor o ddatganoli'r gwasanaeth prawf. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn archwilio model Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n debyg i'r model sydd ar waith ym Manceinion Fwyaf, ac mae Grŵp Datblygu Prawf Cymru wedi cynnig fframwaith ar gyfer gwasanaeth wedi'i ddatganoli'n llawn.

Mae'r holl waith hwn yn gwella ein dealltwriaeth o sut mae gweithgarwch Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chanlyniadau cyfiawnder, a fydd yn llywio penderfyniadau a chyflwyniadau cyllideb yn y dyfodol.

**Sicrhau Cyfiawnder i Gymru**

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, rydym yn parhau i flaenoriaethu camau gweithredu o fewn y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru sy'n dod o fewn ein pwerau presennol, ac rydym yn mynd ati i geisio sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei ddatganoli er mwyn ehangu ein gallu i gyflawni ei nodau ehangach. Mae manylion dyraniadau'r gyllideb ar gael yn Atodiad B.

Mae llawer o gamau gweithredu'r rhaglen yn canolbwyntio ar brofiadau pobl ifanc yn y system gyfiawnder, lle mae cynnydd wedi'i wneud drwy'r glasbrintiau cyfiawnder ieuenctid a thrwy ddarparu gwasanaethau ar y cyd. Ein nod yw datblygu'r gwaith hwn drwy, er enghraifft:

- Datblygu fframwaith atal ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu risg
- Sicrhau mynediad at gymorth drwy'r Warant i Bobl Ifanc ar gyfer y rhai yn yr ystad ddiogel
- Hyrwyddo egwyddorion Pontio o Ieuenctid i Fyd Oedolion
- Archwilio modelau'r dyfodol ar gyfer darpariaeth ddiogel i bobl ifanc yng Nghymru
- Lleihau nifer y plant sy'n cael eu cadw ar remánd
- Gwreiddio arferion da atal ym maes cyfiawnder ieuenctid
- Cryfhau dulliau sy'n ystyriol o drawma mewn amgylcheddau diogel ieuenctid

Cafodd y Glasbrintiau eu cyhoeddi yn 2019 gyda chynllun gweithredu pum mlynedd, ar ôl cael eu datblygu ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Plismona yng Nghymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, a phartneriaid y trydydd sector. Ers mis Ebrill 2025, maent wedi dechrau cam cyflawni newydd sy'n canolbwyntio ar ymwreiddio arferion da, cefnogi llesiant, a lleihau lefelau aildroseddu—yn enwedig ar gyfer menywod a phlant.

Er nad yw hon yn rhaglen bartneriaeth gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dechnegol, rydym yn parhau i ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu er mwyn cefnogi eu gwaith hanfodol yn cadw cymunedau'n ddiogel. Yn 2025/26 gwnaethom ddarparu £16.003m o gyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac yn 2026/27 bydd y cyllid hwn yn cynyddu i £16.273m. Yn dilyn argymhellion gan Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd, rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad llai manwl o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru, er mwyn darparu dealltwriaeth ehangach o'r mathau o waith sy'n cael ei wneud gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Ar gyfer 2026–27, nid oes unrhyw wariant cyfiawnder ar y cyd wedi'i gynllunio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi pobl ifanc a menywod er mwyn eu hatal rhag dod i gyswllt â'r system gyfiawnder, a bydd yn parhau i gydweithio'n agos â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf

EF i reoli'r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau datganoledig a gwasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli.

**Tribiwnlysoedd Cymru**

Rydym yn datblygu cynigion yn ymwneud â Diwygio Tribiwnlysoedd drwy ddatblygu'r Bil Tribiwnlysoedd. Mae'r gwaith parhaus hwn, sy'n cynnwys paratoi i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, yn cael ei gefnogi gan y llinell wariant Trawsnewid Cyfiawnder.

Roedd yn dda gennym allu cynyddu dyraniad y gyllideb ar gyfer gwaith Tribiwnlysoedd Cymru, o £4.110 miliwn yn 2024/25 i £6.083 miliwn yn 2025/26[1], sy'n cynnwys newidiadau a wnaed yn y gyllideb atodol gyntaf: £35,000 ar gyfer cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol a £40,000 wedi'i drosglwyddo o'r llinell wariant Addysg ar gyfer prosiectau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Rydym yn bwriadu gwneud dyraniadau pellach yn yr ail gyllideb atodol er mwyn talu costau dyfarniadau cyflog ac ar gyfer prosiectau yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i sicrhau gweithrediad effeithiol a chynaliadwy y tribiwnlysoedd datganoledig, ac mae'n cydnabod cyfraniad pwysig aelodau a staff y tribiwnlysoedd. Dyraniad y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2026/27 yw £6.076 miliwn ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru, gan gadw cynnydd ar gyfer costau parhaus sy'n gysylltiedig â staff.

Rydym yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n gyfrifol ac yn effeithlon. Rydym yn croesawu ymdrechion parhaus Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i nodi a gwneud arbedion lle bo hynny'n bosibl. Mae monitro cyllideb y gwasanaeth tribiwnlysoedd yn broses barhaus a chydweithredol. Mae'r mater hwn yn cael ei drafod gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni a swyddogion, fel sy'n briodol, er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cyd-fynd ag anghenion gweithredol.

Mae dyraniad cyfalaf gwerth £350,000 ar gael i'r llinell wariant Tribiwnlysoedd yn 2025/26 ar gyfer caffael system rheoli achosion newydd. Bydd y buddsoddiad hwn yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd holl Dribiwnlysoedd datganoledig Cymru a'u haelodau barnwrol. Yn ogystal, mae cyllid refeniw gwerth £150,000 wedi'i ddyrannu er mwyn cynorthwyo'r gwaith o fudo data o'r system TG bresennol i'r platfform newydd, ochr yn ochr ag adnoddau staffio priodol i hwyluso'r gwaith caffael a gweithredu.

**Hygyrchedd cyfraith Cymru**

Fel yr eglurwyd yn y blynyddoedd blaenorol, mae costau ein gwaith i gyflwyno'r rhaglen *Dyfodol Cyfraith Cymru* yn cael eu talu o nifer o bortffolios fel rhan o weithgarwch deddfwriaethol ehangach y sefydliad. Bydd y sefyllfa hon yn parhau yn 2026-27 ac yn y blynyddoedd i ddod.

[1]Noder bod y tabl yn Atodiad B yn adlewyrchu dyraniad gwreiddiol y cyllid yn hytrach na dyraniadau cyllideb atodol yn ystod y flwyddyn.

**Atodiad B – dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer cyllidebau cyfiawnder – 2026/27**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) | Prif Grŵp Gwariant (MEG) | Cyllideb 2025/26[2] | Cyllideb Arfaethedig 2026/27 | Effaith y newidiadau |
|---|---|---|---|---|
| Trawsnewid Cyfiawnder | Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 0.688m | 0.711m | Mae'r llinell wariant hon yn ariannu paratoadau datganoli a diwygio tribiwnlysoedd. Mae'r cynnydd yn y cyllid yn deillio o gostau cynyddol staffio'r ddau weithgaredd hyn a chostau cysylltiedig eraill. |
| Diwygio Cyfansoddiadol | Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 2.014m | 2.075m | Mae'r llinell wariant hon hefyd yn cyfrannu at waith i geisio sicrhau bod cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf yn cael eu datganoli, drwy ariannu (ymhlith pethau eraill) staff i weithio ar y polisïau hyn. |
| Sicrhau Cyfiawnder Troseddol | Cyfiawnder Cymdeithasol | 1.292m | 1.443m | Mae'r llinell wariant hon yn gwneud gwaith i gefnogi menywod a phlant yn y system gyfiawnder, gan gynnwys gwasanaeth Cymru'n Un sy'n cael ei gomisiynu ar y cyd gennym ni â phartneriaid cyfiawnder. |
| Cymorth a Diogelwch Cymunedol | Cyfiawnder Cymdeithasol | 16.003m | 16.273m | Mae'r llinell wariant hon yn cefnogi ein cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n cael eu cyflogi gan luoedd heddlu Cymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. |

[2] Mae'r ffigurau yn adlewyrchu'r sefyllfa pan gytunwyd cyllideb 2025/26 am y tro cyntaf ac nid ydynt yn cynnwys addasiadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tribiwnlysoedd | Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 6.008m | 6.076m | Mae'r llinell wariant hon yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau tribiwnlys yng Nghymru. |